CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

ADRODDIAD BLYNYDDOL
A
DATGANIAD ARIANNOL

Y flwyddyn hyd at 31ain Rhagfyr 2014

Capel y Tabernacl, Cyf.
Cwmni cyfyngedig drwy warant Rhif 6349041
Elusen gofrestredig Rhif: 1122584

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

CYNNWYS

Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol	Tudalen 3
Swyddogion y Tabernacl	Tudalen 4–5
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	Tudalen 6–8
Adroddiad y Cadeirydd	Tudalen 9–10
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	Tudalen 11–12
Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	Tudalen 13
Mantolen	Tudalen 14
Nodiadau sy'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol	Tudalen 15–17
Atodiad 1: Rhestr Aelodau 2014	Tudalen 18-20
Atodiad 2: Ystadegau 2014	Tudalen 21
Atodiad 3: Cyfraniadau Aelodau	Tudaen 22-23

Dymuna Capel y Tabernacl Cyf. ddiolch i'r canlynol am eu cymorth ariannol hael gyda'r gwaith o wella'r adeiladau dros y blynyddoedd diweddar:

Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol Llywodraeth Cymru; Cronfa Pawb a'i Le, Y Loteri Genedlaethol; Ymddiriedolaeth Pantyfedwen; Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Enw cofrestredig y cwmni: Capel y Tabernacl, Cyf.

Cyfeiriad Cofrestredig: 9, Sovereign Gardens, Ffordd Cefn yr Hendy Meisgyn, Pont-y-clun CF72 8SZ

Ysgrifennydd y Cwmni: Gwilym Huws

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

Cyfarwyddwyr y Cwmni ac Ymddiriedolwyr yr Elusen:

Enw	*Etholwyd*
Emlyn Davies	Tachwedd 2013
Carys Davies	Tachwedd 2014
Sara Mary Davies*	Tachwedd 2011
Celt Hughes	Tachwedd 2013
Manon Esyllt Humphreys*	Tachwedd 2011
Gwilym Huws	Tachwedd 2014
Jane Eryl Jones	Tachwedd 2012
Gareth Wyn Jones	Tachwedd 2012 (Cadeirydd)
Caroline Rees	Tachwedd 2013
Heulyn Rees	Tachwedd 2012
Wendy Reynolds	Tachwedd 2014
Glenys Mair Glyn Roberts	Tachwedd 2013
Gwenfil Edwina Thomas*	Tachwedd 2011
Michael West	Tachwedd 2012
Margaret Wyn White*	Tachwedd 2011

Mae disgwyl i draean y cyfarwyddwyr ymddeol yn eu tro bob blwyddyn. Ymddeolodd y cyfarwyddwyr a nodir gyda * ym mis Tachwedd 2014.

Gwefan:	**www.tabernacl.org**
Cyfreithwyr:	Devonalds, York House, Pontypridd CF37 1JW
Bancwyr:	Lloyds TSB, Sgwâr y Farchnad, Pontypridd CF37 2TF
Cyfrifydd:	Emyr Evans, Dewey Evans Ltd., 17 St Andrews Crescent, Caerdydd CF10 3DB

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

SWYDDOGION Y TABERNACL
(AR WAHÂN I FWRDD Y CYFARWYDDWYR)

Gweinidog Anrhydeddus
Y Parchg. D. Eirian Rees

Organydd
D. Carey Williams
gyda chymorth Bethan Roberts, Geraint Herbert, Siân Elin Jones

Ysgrifennydd y Cwmni
Gwilym Huws

Trysorydd
Keith Rowlands

Ysgrifennydd Gohebol
Allan James

Swyddog Llenyddiaeth
Rowland Wynne

Cysylltwyr Ardal
Creigiau / Groesfaen: Geraint Davies, Jen Macdonald, Lowri Roberts, Nia Williams;
Crown Hill, Gwaun Meisgyn, Beddau: Ann Rees;
Efail Isaf: Shelagh Griffiths, Loreen Williams; *Llantrisant:* Rhiannon Price, Glenys Roberts;
Pentre'r Eglwys: Rhiannon Humphreys, Carys Davies, Eirian Rowlands;
Meisgyn: Jane Eryl Jones; *Pentyrch:* Marian Wynne;
Ton-teg: Elaine James, Audrey Lewis, Gwen Aubrey;
Radur, Gwaelod-y-garth: Ros Evans.

Gweithgor Ariannol
Gwilym Huws (Cadeirydd)
Wyn Penri Jones (Ysgrifennydd)

Pwyllgor Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus
Gwion Evans (Cadeirydd)

Gweithgor Llywio Prosiect Adeilad y Capel
Helen Middleton (Cadeirydd)
Emlyn Penny Jones (Ysgrifennydd)

Pwyllgor y Meddiannau
Mike West (Cadeirydd)

Y Gweithgor Gweinidogaethu
Parchg. D Eirian Rees (Cadeirydd)
Allan James (Ysgrifennydd)

Pwyllgor y Ganolfan
Glenys M. Roberts (Cadeirydd)

Pwyllgor Ariannu Prosiect Adeiladau Tabernacl (PAPAT)
Emlyn Davies
Wyn Penri Jones
Rowland Wynne

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

SWYDDOGION Y TABERNACL
(AR WAHÂN I FWRDD Y CYFARWYDDWYR)

Merched y Tabernacl
Rosalind Evans
Judith Thomas

Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol
Ann Dwynwen Davies
John Llewelyn Thomas

Cymorth Cristnogol
John Llewelyn Thomas

Bwydo'r Digartref
Margaret Calvert

Cronfa Lesotho
Nia Williams

Yr Ysgol Sul
Lowri Roberts (Ysgrifennydd)

Masnach Deg
Caroline Rees

Rheolwraig Safle
Ann Dixey

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2014. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi mabwysiadu'r darpariaethau yn y "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2005 wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau hyn.

Strwythur, rheoli a threfn lywodraethol

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn gwmni elusennol ac yn gwmni cyfyngedig o dan warant. Ymgorfforwyd y cwmni ar 21 Awst 2007 ac fe'i cofrestrwyd fel elusen ar 4 Chwefror 2008. Fe'i sefydlwyd yn unol â'r Memorandwm sy'n datgan manylion a phwerau'r cwmni, a chaiff ei reoli'n unol â'r Erthyglau Cymdeithasiad.

Prif ddiben y cwmni elusennol hwn yw hybu'r grefydd Gristnogol yn unol â chredoau'r anghydffurfwyr Protestannaidd a elwir yn Annibynwyr Cymraeg fel aelodau o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a hefyd at ddibenion cyffredinol y cyfryw gyrff elusennol neu at ddibenion eraill a fydd yn elusennol yn unig fel y penderfynir o bryd i'w gilydd gan y Cyfarwyddwyr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Cyfarwyddwyr.

Y Cyfarwyddwyr
Etholir y Cyfarwyddwyr gan Gyfarfod Blynyddol Capel y Tabernacl Cyf. Ni fyddant yn llai na chwech mewn nifer ond (oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad cyffredin) ni fydd yn amodol ar unrhyw uchafswm. Mae gan y Bwrdd hawl i gyfethol cyfarwyddwyr ychwanegol. Yn dilyn pob cyfarfod cyffredinol blynyddol, bydd y Cyfarwyddwyr yn penodi un o'u plith i fod yn gadeirydd eu cyfarfodydd. Y nifer angenrheidiol i ffurfio cworwm yw 6 o bersonau sydd â'r hawl i bleidleisio ar y mater i'w drafod.

Ymgynghorwyr
Trwy gydol 2014 bu Eirian Rees, Allan James a Keith Rowlands yn ymgynghorwyr.

Rheoli
Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn fisol. Mae gwaith y capel yn cael ei drefnu o ddydd i ddydd gan y pwyllgorau a restrir ar dudalennau 4 a 5.

Bydd pob un o'r pwyllgorau/grwpiau hyn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Mae'r Erthyglau Cymdeithasiad yn datgan bod pob aelod o'r Elusen yn ymgymryd i gyfrannu at asedau'r elusen swm gofynnol na fydd yn fwy na decpunt os digwydd i'r elusen gael ei dirwyn i ben.

Cyflogaeth
Mae'r Tabernacl yn cyflogi dau berson, sef Mrs Ann Dixey fel Rheolwraig Safle, ynghyd â glanhawraig.

Adolygiad Risg
Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae Capel y Tabernacl Cyf. yn agored i risg, ac mae systemau wedi eu sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau, sydd yn cynnwys risgiau megis parhad y capel, materion ariannol, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant ac oedolion bregus, staffio a'r amgylchedd.

Amcanion a Gweithgareddau
Prif amcan y cwmni yw bod yn eglwys i roi cyfle i'r aelodau fod yn dystion i Iesu Grist ym mhentref Efail Isaf, ac yn yr ardal o gwmpas. Golyga hynny ymgymryd â'r holl weithgareddau sy'n arferol i eglwys Gristnogol ac fe'u rhestrir yn yr Erthyglau Cymdeithasiad. Mae gan y cwmni hefyd hawl i arddel at ddibenion cyffredinol unrhyw gorff elusennol y dymuna'r Ymddiriedolwyr ei gefnogi, neu at ddibenion eraill y bydd yr Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn rhai cyfan gwbl elusennol.

Llwyddiannau a Pherfformiad
Penderfynodd y Bwrdd gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wahân i'r cyfrifon, yn manylu ar weithgareddau'r elusen. Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hefyd yn adolygu'r hyn a gyflawnwyd. At ddibenion y datganiad hwn, gweler Adroddiad y Cadeirydd.

Adolygiad Ariannol
Adroddwyd canlyniadau'r elusen yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalen 13.

Daeth cyfanswm o £55,514 o adnoddau i mewn (2013: £44,044) a gwariwyd cyfanswm o £43,723 yn y flwyddyn (2013: £39,942). Roedd adnoddau net a dderbyniwyd llai hynny a wariwyd yn ystod y flwyddyn yn £11,791 gyda balans a ddygwyd ymlaen o £692,871. Cynrychiolir hyn gan gronfa gyfyngedig o £1,833 a chronfa anghyfyngedig o £691,038 sydd yn ymddangos yn y Fantolen ar dudalen 14.

Ni roddwyd unrhyw dâl i'r ymddiriedolwyr.

Polisi Buddsoddi
Rheolwyd polisi buddsoddi'r cwmni gan yr Erthyglau Cymdeithasiad, o fewn y canllawiau a osodwyd. Rydym yn adolygu'r sefyllfa hon yn gyson.

Polisi Cronfeydd
Mae'r cwmni'n ffodus bod cyfran helaeth o'r incwm yn dod trwy gyfraniadau aelodau, a'r rheiny ar y cyfan yn weddol gyson trwy'r flwyddyn, gyda nifer helaeth yn talu trwy archeb banc. Derbynnir tua £21K y flwyddyn mewn rhoddion gan aelodau. Y polisi yw ceisio sicrhau bod tua 3 mis o wariant arferol yn aros yn y cyfrif cyfredol yn gyson, a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa fuddsoddi, fel y nodwyd uchod.

Datblygiadau

Teimla'r ymddiriedolwyr yn hyderus fod dyfodol ariannol Capel y Tabernacl, Cyf. ar seiliau cadarn iawn.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr
Mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn ôl y ddeddf ar gyfer cwmnïau, ac felly'n derbyn y cyfrifoldeb am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am baratoi'r datganiadau cyllidol yn unol â gofynion safonau cyfrifyddol perthnasol y Deyrnas Unedig. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod cyfraith elusennau'r Deyrnas Unedig yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn darparu datganiadau cyllidol am bob blwyddyn, sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr yr elusen, ac o incwm a thraul yr elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau cyllidol mae disgwyl i'r Cyfarwyddwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddol addas ac yna'u gweithredu'n gyson
- ddyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol a doeth
- ddweud bod safonau cyfrifyddol perthnasol a *Datganiad Ymarferion a Argymhellwyd* wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw wyriadau materol sydd wedi eu datguddio a'u hesbonio yn y datganiadau cyllidol
- ddarparu datganiadau cyllidol ar sail busnes oni bai ei bod yn anaddas i gymryd yn ganiataol y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cyfrifon penodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ac ar unrhyw adeg, gyflwr cyllidol yr elusen ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn cydsynio â'r Ddeddf Elusennau 1993 a'r Ddeddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am warchod asedau'r elusen ac yna i gymryd camau rhesymol i atal ac i ddarganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

Polisi Arian Wrth Gefn
Penderfynodd y Cyfarwyddwyr roi ystyriaeth fanwl i anghenion y cwmni elusennol am arian wrth gefn, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau yn y ddogfen "Elusennau a chronfeydd wrth gefn" (CC19) a gyhoeddwyd ym Mehefin 2010.

Yn ein barn ni, mae angen cronfa wrth gefn i'r dibenion canlynol:

1. I gynnal gwaith yr elusen a gweithgareddau'r capel mewn cyfnodau lle y gallem fod yn wynebu gostyngiad mewn incwm.

2. I wireddu prosiectau mewn cyfnod byr yn ôl y galw.

3. I gynnal a chadw'r capel, sydd mewn cyflwr gwael, fel ein bod yn medru wynebu unrhyw atgyweirio angenrheidiol heb i'r gost lesteirio ein gwaith fel eglwys.

4. I gynnal a chadw'r Ganolfan newydd gan na wyddom beth fydd union gost hynny oherwydd newydd-deb y fenter.

5. I fedru wynebu unrhyw gostau ychwanegol yn y Ganolfan nad oes modd eu rhagweld ar hyn o bryd.

Archwilwyr

Archwiliwyd y cyfrifon hyn gan Mr Emyr Evans, Uwch Archwilydd Statudol, Dewey Evans Ltd., 17 St Andrews Crescent, Caerdydd CF10 3DB. Yn ogystal, penodwyd Mr Evans i gwblhau'r cyfrifon am y flwyddyn gyfredol.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd – Adrodd a Chyfrifo i Elusennau" ac yn unol â darpariaethau arbennig Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bach.

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr ar 14 Gorffennaf 2015 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:

Gwilym Huws
Cyfarwyddwr

Gareth Wyn Jones
Cyfarwyddwr

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Mae'n anodd credu bod blwyddyn gyfan wedi mynd heibio oddi ar i mi lunio fy adroddiad cyntaf fel Cadeirydd y Bwrdd, ond dyma hi'n amser i mi baratoi fy ail adroddiad sy'n cwmpasu blwyddyn arall o weithgarwch y capel. Braf yw medru cofnodi bod hon eto wedi bod yn flwyddyn fyrlymus yn ein hanes fel eglwys, ac fel y tystia'r diolchiadau isod mae'n destun balchder bod cynifer o unigolion yn barod i roi o'u hamser a'u doniau er mwyn sicrhau ffyniant yr eglwys.

Yn y lle cyntaf, carwn ddiolch i holl aelodau'r Bwrdd am wneud fy nhasg fel Cadeirydd yn un mor ddidrafferth. Ym mis Tachwedd daeth tymor Sara Davies, Manon Humphreys, Gwenfil Thomas a Margaret White fel aelodau o'r Bwrdd i ben. Diolch iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr, ac yn arbennig felly Manon Humphreys am gadw trefn arnom fel ein hysgrifennydd. Yn eu lle enwebwyd Carys Davies, Gwilym Huws a Wendy Reynolds yn aelodau newydd, a Celt Hughes a Caroline Rees i barhau'n aelodau am ddwy flynedd arall yn dilyn eu cyfnod fel aelodau cyfetholedig. Diolch i Gwilym Huws am ymgymryd â swydd ysgrifennydd, ac i'n trysorydd Keith Rowlands am barhau i gadw trefn ofalus ar faterion ariannol yr eglwys. Mae'r llyfryn *Pwy yw Pwy?* a ddosbarthwyd i'r holl aelodau ym mis Ebrill yn dangos cynifer o swyddogion sy'n gwasanaethu holl bwyllgorau a gweithgorau'r eglwys. Yn ddiweddar, cytunodd Bwrdd y Cyfarwyddwyr y dylid neilltuo ychydig funudau ar ddechrau'r gwasanaeth unwaith y mis i gynrychiolwyr pwyllgorau'r eglwys yn eu tro gyflwyno cipolwg o swyddogaeth neu ddatblygiadau diweddar y pwyllgor arbennig hwnnw i'r gynulleidfa. Wrth ddiolch iddynt am eu parodrwydd i dderbyn cyfrifoldeb dros agweddau amrywiol o waith yr eglwys, carwn ddiolch o galon hefyd i'r swyddogion hynny y mae eu tymor wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn am gyflawni eu dyletswyddau mor effeithiol.

Ond hefyd mae'r eglwys yn unigryw yn y modd yr ydym yn dibynnu cymaint ar yr aelodau i gynnal oedfaon, a diolch i bob un am eu parodrwydd i ymgymryd â'r her; does dim dwywaith fod y cyfraniadau hyn yn cyfoethogi'n profiadau ninnau fel cynulleidfa. Mae'r datblygiad a sefydlwyd y llynedd i gynnal gwasanaethau ardal yn parhau i ffynnu, ac mae gennym le i ddiolch i'r rhai sydd wrthi'n ddiwyd yn llunio'r oedfaon amrywiol hyn. Diolch unwaith eto i Carey Williams am ei gyfeilio urddasol a'i ddatganiadau cerddorol pwrpasol bob Sul. Ni ddylid anghofio chwaith am wasanaeth clodwiw'r criw gweithgar y tu ôl i'r llenni – mae eu cyfraniadau diffwdan hwythau yr un mor allweddol wrth sicrhau bod y gwasanaethau'n rhedeg yn gwbl lyfn o Sul i Sul.

Yn dilyn oedfa ar fore Sul 10 Mai, i gofnodi ymddeoliad y Parchedig Eirian Rees fel Gweinidog Anrhydeddus y Tabernacl, trefnwyd cyfarfod syml yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf. Daeth tyrfa fawr at ei gilydd, yn fwy na balch o'r cyfle i ddiolch i Eirian ac Ann am eu cyfraniad amhrisiadwy i'r achos dros gyfnod o ddeugain mlynedd a mwy. Wedi i rai o blant yr Ysgol Sul ganu iddynt, talwyd teyrnged i'r ddau am eu holl waith gan y Cadeirydd, Wyn Jones, a chyflwynwyd fâs grisial hardd iddynt. Wrth ymateb, pwysleisiodd Eirian fod yn rhaid i'r aelodau barhau i fod yn effro i heriau'r dyfodol, yn hytrach na threulio amser yn hiraethu am y gorffennol.

Cafwyd tystiolaeth gyson yn ystod y flwyddyn a aeth heibio o barodrwydd aelodau'r eglwys i wynebu'r her o fod heb weinidog. Diolch i'r aelodau hynny sydd wedi rhoi arweiniad defosiynol priodol wrth fwrdd y cymun o fis i fis, ac i Jane Eryl am wirfoddoli i drefnu a llywio nifer o fedyddiadau, a hynny mewn ffordd ddiffwdan ond urddasol. Edrychwn ymlaen at gyfraniad Geraint Rees ac aelodau eraill o'r Panel Priodasau a sefydlwyd yn ddiweddar wrth iddynt hwythau ymgymryd â'u dyletswyddau'n trefnu a chynnal gwasanaethau priodas.

Braf gweld bod yr Ysgol Sul yn parhau i ffynnu, diolch i lafur diflino'r arweinwyr a phawb arall a fu mor barod i helpu. Ers tro, roedd yr arweinwyr o'r farn fod angen rhagor o gymorth arnynt er mwyn dod i ben â'r gwaith o gynnal yr holl weithgareddau. Wedi llunio rhestr o'r dyletswyddau, trefnwyd cyfarfod o rieni'n ddiweddar a gofyn iddynt ystyried torri eu henwau wrth wahanol swyddi. Da deall iddynt lwyddo i lenwi'r rhestr cyfrifoldebau'n ddidrafferth. Rhaid canmol yr Ysgol Sul hefyd am arbrofi y Nadolig diwethaf trwy gynnal dau wasanaeth ar wahân, gyda'r plant ieuengaf ar un Sul a'r plant hynaf a pharti i ddilyn y Sul canlynol. Profodd yr arbrawf yn un llwyddiannus iawn, a gobeithiwn ei weld yn cael ei fabwysiadu'n flynyddol o hyn ymlaen. Arbrawf arall fu'n llwyddiant eleni oedd trefnu sesiwn o weithgareddau i'r plant yn y Ganolfan ar fore Gwener y Groglith. Braf gweld hefyd bod yr Ysgol Sul yn frwd unwaith yn rhagor i gynorthwyo plant llai ffodus na hwy eu hunain, ac fel rhan o *Operation Christmas Child* llwyddwyd i lenwi dros 100 o focsys esgidiau ag anrhegion a nwyddau defnyddiol i'w hanfon i blant yn Rwmania.

Mater a dderbyniodd gryn sylw gan yr aelodau yn ystod y flwyddyn oedd mabwysiadu polisi ar briodasau un-rhyw i gwrdd â gofynion y ddeddf newydd. Dan arweiniad y Gweithgor Gweinidogaethu, cynhaliwyd dau gyfarfod anffurfiol i ystyried safbwynt y Tabernacl ar y pwnc. Yn y cyfarfod cyntaf, cafwyd cyflwyniad clir a

chytbwys gan Emlyn Davies o'r prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn cynnal priodasau hoyw yn ein haddoldai, cyn symud ymlaen i drafodaeth ymhlith yr aelodau. Gwelwyd yn fuan fod y Tabernacl yn eglwys agored a chariadus a barchai pob safbwynt, heb wahaniaethu yn erbyn personau ar sail eu rhywioldeb. Penderfynwyd yn yr un cyfarfod y byddai'n gyfle da hefyd i graffu ar bolisi'r eglwys ar briodasau'n gyffredinol, a gofynnwyd i'r Gweithgor Gweinidogaethu lunio polisi clir ar briodasau. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a gynhaliwyd ddydd Sul 22 Mawrth, cafodd y Polisi Priodasau ei gario'n unfrydol. Y cam nesaf fydd cofrestru adeilad y Capel fel un lle gellir cynnal priodasau unrhyw.

Yn wyneb yr arbedion ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol, rhagwelir y daw'n fwyfwy anodd i sicrhau gwasanaeth aelod o Gyngor Sir Rhondda Cynon Taf i fod yn bresennol i gofrestru priodasau yn y Capel. Er mwyn goresgyn y broblem hon bydd yr eglwys, yn ystod y flwyddyn nesaf, yn bwrw ati i wneud trefniadau i'n galluogi i gofrestru priodasau'n fewnol. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i deuluoedd wrth iddynt ddewis dyddiad ac amser priodas.

Un o bwyllgorau prysuraf yr eglwys yn ystod y deuddeng mis diwethaf yn ddi-os oedd y Gweithgor Adeiladu. Rydym yn hynod ddiolchgar iddynt hwy – dan arweiniad y Cadeirydd, Helen Middleton, a'r Ysgrifennydd, Emlyn Penny Jones – am eu trylwyredd wrth baratoi'r cynllun gwaith i atgyweirio'r capel. Hefyd, wrth ymgynghori ac ymweld â chapeli ac eglwysi eraill, maent wedi derbyn gwybodaeth am yr opsiynau gorau sydd ar gael wrth ddewis system wresogi a dodrefn newydd. Wrth i mi lunio'r adroddiad hwn, rydym yn parhau'n obeithiol y bydd y gwaith adeiladu'n cychwyn cyn diwedd yr haf ac y bydd wedi'i gwblhau ymhen rhyw dri mis. Yn ystod cyfnod yr adeiladu bydd angen i ni fod yn hyblyg ac amyneddgar iawn ar foreau Sul, ond rwy'n siŵr y bydd unrhyw drafferthion dros dro yn werth yr aros pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau.

Eleni eto mae'r aelodau wedi gweithio'n ddiwyd a chyfrannu'n hael tuag at y rhai llai ffodus o fewn ein cymuned leol. Cyfanswm y Gronfa Elusen am 2014 oedd £2,258. Fe'i rhannwyd rhwng Y Stafell Fyw, Travol, Cymdeithas Clefyd y Galon, Rhaglen Trallwyso Gwaed a Thrawsblannu Mêr Esgyrn Caerdydd, a Hosbis George Thomas. Y pedair elusen benodol a fabwysiadwyd gan yr eglwys ar gyfer 2015 yw Ymchwil Canser Cymru (er cof am Haulwen Hughes), Cymdeithas Alzheimer (er cof am John James), Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, a Childline. Yn dilyn argymhelliad y Gweithgor Cymdeithasol, a gadarnhawyd gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, mae un newid i'r drefn flaenorol sef mai 80% o gasgliad yr amlenni brown o hyn allan a rennir rhwng y pedair elusen ddewisol, tra bod y 20% sy'n weddill yn cael ei neilltuo at achosion a allai godi yn ystod y flwyddyn. Deellir mai'r 80% a glustnodir at elusennau penodol yn unig fydd yn gymwys i dderbyn ad-daliad treth incwm.

Bu dros ugain o aelodau wrthi ddiwedd Tachwedd, ac eto ddechrau Gorffennaf, yn cefnogi Capel Bethel, Pont-y-clun, drwy fod ar ddyletswydd yn archfarchnad Tesco, Tonysguboriau, i gasglu nwyddau ar gyfer Banc Bwyd Pont-y-clun. Hefyd mae'n braf nodi bod ein haelodau yn parhau i anfon cyfraniadau i Fanc Bwyd Pont-y-clun yn gyson drwy'r flwyddyn. Daliwch ati, felly, i lenwi'r bocs ym mlaen y capel. Hefyd, yn ystod y flwyddyn, deallwyd fod angen dybryd am ddillad plant ac oedolion, ynghyd â dillad gwely ac ati, ar y Gwasanaethau Cymdeithasol lleol. Lansiwyd ymgyrch gan y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn gwahodd aelodau i ddod â dillad mewn bagiau du i'r Capel, a bellach mae degau lawer o fagiau wedi eu trosglwyddo i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ogystal, mae rhestr y gwirfoddolwyr sy'n helpu gyda'r te pnawn Sul yng nghapel Tabernacl, yr Ais, Caerdydd, yn parhau i dyfu. Diolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser, neu sydd wedi cyfrannu mewn rhyw fodd neu'i gilydd, at bob un o'r achosion teilwng hyn. Mae'r eglwys yn parhau i estyn llaw hefyd i'r anghenus yn rhannau tlotaf y byd. Unwaith eto ym mis Mai bu rhai aelodau'n casglu o ddrws i ddrws tuag at apêl Wythnos Cymorth Gristnogol, pryd y llwyddwyd i godi £1,400. Mae'r Capel hefyd yn parhau i gasglu'n fisol i gynorthwyo plant amddifad yn Lesotho.

Trist yw gorfod nodi marwolaeth pedwar o aelodau'r eglwys yn ystod y flwyddyn, sef Jennie Jones, Haulwen Hughes, John James a Carwyn John Davies. Gadawyd bwlch ar eu holau yn y Capel yn ogystal ag ar eu haelwydydd. Diolchwn am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r achos yma yn y Tabernacl, ac estynnwn bob bendith a'n cydymdeimlad dwysaf i'w teuluoedd yn eu colled.

Cyflwynwn ein cyfrifon am 2014, gan nodi ein diolch i'n cyfrifydd Emyr Evans am ei waith trylwyr ar ein rhan unwaith eto. Ar ran holl swyddogion y capel, diolch i bawb am eich cyfraniadau hael eto eleni.

Gareth Wyn Jones

14 Gorffennaf 2015

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol
i Gyfarwyddwyr Capel y Tabernacl, Cyf.

Rydym wedi archwilio datganiad ariannol Capel y Tabernacl Cyf. ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014 sy'n cynnwys y datganiad o weithgareddau ariannol, y fantolen a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Paratowyd yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, ac ar eu cyfer hwy yn unig, yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011 a'r rheoliad a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd a heb fod at unrhyw bwrpas arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, neu am y barnau a ffurfiwyd gennym.

Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr

Fel yr esbonnir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, y mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) ac am fod yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis i'r datganiadau ariannol gael eu harchwilio yn unol â Deddf Elusennau 2011 yn hytrach na Deddf Cwmnïau 2006. Yn unol â hynny, rydym wedi ein penodi fel archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac adroddwn yn unol ag adran 154 y Ddeddf honno. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a datgan barn arnynt yn unol â'r gyfraith berthnasol ac â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Y mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Rhoddir disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Bwrdd Arferion Archwilio www.frc.org.uk/apb/scope/private.cfm

Barn

Yn ein barn ni:

Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion y cwmni elusennol ar 31 Rhagfyr 2014 ac o'i adnoddau sy'n dod i mewn ac o ddefnyddio adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i
Gyfarwyddwyr Capel y Tabernacl, Cyf.

Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, y mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt, os barnwn:

fod y wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw ffordd o bwys â'r datganiadau ariannol; **neu**

na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; **neu**

nad yw'r datganiadau ariannol yn cyfateb i'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; **neu**

nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Emyr Evans
Uwch Archwilydd Statudol ar gyfer
Dewey Evans Limited
Archwilwyr Siartredig
17 St Andrews Crescent
Caerdydd
CF10 3DB

14 Gorffennaf 2015

Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn cynnwys cyfrif o incwm a gwariant y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2014

	Nodyn	**Cronfeydd Anghyfyngedig 2014 £**	**Cronfeydd Cyfyngedig 2014 £**	**Cyfanswm Cronfeydd 2014 £**	Cyfanswm Cronfeydd 2013 £
Incwm a dderbyniwyd:					
Incwm gwirfoddol	2	**50,180**	**-**	**50,180**	39,314
Ymgyrchoedd codi arian	3	**-**	**5,334**	**5,334**	4,730
Cyfanswm adnoddau a dderbyniwyd		**50,180**	**5,334**	**55,514**	44,044
Adnoddau a wariwyd:					
Gweithgareddau elusennol	4	(36,145)	**(6,858)**	**(43,003)**	(39,222)
Costau Rheolaeth	5	**(720)**	**-**	**(720)**	(720)
Cyfanswm adnoddau a wariwyd		**(36,865)**	**(6,858)**	**(43,723)**	(39,942)
Adnoddau net a dderbyniwyd /(wariwyd) yn ystod y flwyddyn		**13,315**	**(1,524)**	**11,791**	4,102
Balansau a ddygwyd ymlaen		**677,723**	**3,357**	**681,080**	676,978
Balansau a gariwyd ymlaen		**691,038**	**1,833**	**692,871**	681,080

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion yn y flwyddyn.

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Mantolen
ar 31 Rhagfyr 2014

	Nodyn	2014 £	2014 £	2013 £
Asedau Sefydlog Diriaethol				
Asedau sefydlog	6		**503,750**	514,375
Asedau Cyfredol				
Dyledwyr		**5,553**		5,379
Arian yn y banc		**183,568**		161,526
		189,121		166,905
Dyledion: yn ddyledus o fewn blwyddyn				
Credydwyr		**-**		(200)
Asedau cyfredol net			**189,121**	166,705
Cyfanswm asedau llai dyledion cyfredol			**692,871**	681,080
Cynrychiolir gan:				
Y Gronfa Gyffredinol			**691,038**	677,723
Y Gronfa Gyfyngedig	7		**1,833**	3,357
			692,871	681,080

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn ôl y darpariaethau arbennig yn Rhan VII o'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ymwneud â chwmnïau bach ac yn unol â Safonau Cymwys ar gyfer Endidau Bach (Ebrill 2008).

Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Cyfarwyddwyr ac fe'u harwyddwyd ar eu rhan gan:

Gareth Wyn Jones

Gwilym Huws

Mae'r nodiadau ar dudalennau 15 i 17 yn rhan o'r cyfrifon

Nodiadau ar y datganiad ariannol
y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2014

1. Polisi cyfrifo

Y sail cyfrifo
Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi o dan y confensiwn prisio hanesyddol ac yn unol â safonau cyfrifo cymwys ar gyfer Endidau Bach (mewn grym Ebrill 2008). Dilynir hefyd y Ddeddf Elusennau 2011 a'r datganiad o ymarferion a gynhwysir yn "Adrodd a Chyfrifo am Elusennau Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau (SORP 2005)" a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005.

Incwm Gwirfoddol
Derbyniwyd incwm gwirfoddol mewn ffurf rhoddion ac fe'i cynhwysir yn llawn yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol pan yn ddyledus. Ni chynhwysir yn y cyfrifon werth y gwasanaeth a roddwyd gan wirfoddolwyr, gan nad ydym yn gallu mesur y swm mewn modd dibynadwy. Caiff incwm o fuddsoddiadau eu credydu wrth eu derbyn.

Treth
Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn elusen gofrestredig ac felly'n rhydd o dalu treth gorfforaethol ar ei weithgareddau elusennol.

Dibrisiant
Nid yw'r tir yn cael ei ddibrisio. Dibrisir asedion sefydlog y cwmni ar raddfeydd er mwyn lleihau cost yr ased, llai eu gwerth gweddilliol, dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased fel a ganlyn:

Adeiladau Rhyddfraint:	dros 40 mlynedd
Cyfrifiaduron	50% ar gost
Offer a chyfarpar	25% ar gost

Cyfarwyddwyr
Ni all yr un Cyfarwyddwr dderbyn unrhyw dreuliau mewn cysylltiad â mynychu cyfarfodydd neu bwyllgorau Cyfarwyddwyr neu gyfarfodydd cyffredinol neu fel arall mewn perthynas â chwblhau ei ddyletswyddau, ac ni chaiff gydnabyddiaeth. Ni chaiff unrhyw Gyfarwyddwr gymryd neu ddal budd mewn eiddo a berthyn i'r Elusen na derbyn cydnabyddiaeth na chael unrhyw fudd ar wahân i fod yn Gyfarwyddwr mewn unrhyw gytundeb arall lle mae'r Elusen yn un o'r partïon.

Cronfeydd cyffredinol
Ni osodir amodau allanol ar gronfeydd cyffredinol ac maent i'w gwario yn ôl yr amcanion, neu i'w neilltuo at bwrpasau mewnol priodol.

Cronfeydd cyfyngedig
Mae cronfeydd cyfyngedig yn cynrychioli arian a dderbyniwyd tuag at ddibenion penodol lle ceir amodau ar eu gwario.

Cronfeydd anghyfyngedig (gan gynnwys cronfeydd dynodedig)
Rydym fel cwmni elusennol yn gweithredu'n unol â chanllawiau'r Comisiwn, gan ystyried bod cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn Cyfarwyddwyr Capel y Tabernacl Cyf. er mwyn hyrwyddo amcanion yr elusen. Os yw rhan o gronfa anghyfyngedig wedi'i chlustnodi ar gyfer prosiect arbennig, dyfarnwn y gellir ei dynodi fel cronfa ar wahân, ond mae gan y dynodiad ddiben gweinyddol yn unig, ac nid yw'n cyfyngu ar hawl y Cyfarwyddwyr i ddefnyddio'r gronfa.

Nodiadau ar y datganiad ariannol
y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2014

2. Incwm gwirfoddol

	Cyfyngedig 2014 £	Anghyfyngedig 2014 £	2013 £
Amlenni	-	**20,829**	21,515
Casgliad rhydd	-	**1,837**	1,695
Rhent Tŷ Capel	-	**4,025**	4,525
Y Fynwent	-	**463**	601
Ad-daliad treth incwm	-	**5,379**	5,383
Llog banc *	-	**41**	2,170
Llogi'r ganolfan	-	**4,570**	2,621
Amrywiol	-	**1,592**	804
Rhan o werthu Capel Pencoed		**11,444**	-
	-	**50,180**	39,314

3. Ymgyrchoedd codi arian

	Cyfyngedig 2014 £	Anghyfyngedig 2014 £	2013 £
Gweithgareddau tuag at Apêl Lesotho	**568**	-	1,106
Elusennau eraill	**2,689**	-	1,983
Apêl Haiti	**2,077**	-	1,641
	5,334	-	4,730

4. Costau gweithgareddau elusennol

	Cyfyngedig 2014 £	Anghyfyngedig 2014 £	2013 £
Cyflogau	-	**5,625**	5,404
Trydan, dŵr a nwy	-	**5,803**	3,886
Costau cynnal a chadw	-	**1,419**	1,276
Costau proffesiynol	-	**1,868**	-
Pregethwyr	-	**750**	850
Undeb yr Annibynwyr	-	**942**	1,884
Ysgol Sul/Teulu Twm/Llenyddiaeth	-	**1,106**	1,472
Yswiriant/cyfreithiol	-	**3,190**	3,107
Gweinyddu	-	**379**	-
Y Ganolfan	-	**2,492**	1,523
Y Fynwent	-	**845**	840
Cyfraniad y maes parcio	-	-	-
Dibrisiant	-	**10,625**	14,099
Amrywiol	-	**1,101**	1,161
Costau Lesotho	**1,000**	-	-
Cyfraniad at Apêl Haiti	**2,318**	-	1,400
Elusennau eraill	**3,540**	-	2,320
	6,858	**36,145**	39,222

Nodiadau ar y datganiad ariannol
y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2014

5. Costau rheolaeth

	2014	2013
	£	£
Cost archwiliad	**720**	720

6. Asedau sefydlog

	Tir ac adeiladau rhyddfraint	Offer a chyfarpar	Cyfanswm
	£	£	£
Cost:			
Ar 1 Ionawr 2014	525,000	24,614	549,614
Ychwanegiadau	-	-	-
Ar 31 Rhagfyr 2014	525,000	24,614	549,614
Dibrisiant:			
Ar 1 Ionawr 2014	10,625	24,614	35,239
Cost am y flwyddyn	10,625	-	10,625
Ar 31 Rhagfyr 2014	21,250	24,614	45,864
Gwerth ar bapur net:			
Ar 31 Rhagfyr 2014	**503,750**	-	**503,750**
Ar 31 Rhagfyr 2013	514,375	-	514,375

Mae tir rhyddfraint gyda chost o £100,000, heb ei ddibrisio.

Mae gwerth y tir ac adeiladau rhyddfraint wedi eu prisio yn broffesiynol gan Ingram Evans Care ar 30 Tachwedd 2010 am £525,000. Mae'r Cyfarwyddwyr yn hapus nad yw'r pris yma wedi newid hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2014.

Dibrisiant
Nid yw'r tir yn cael ei ddibrisio. Dibrisir asedion sefydlog y cwmni ar raddfeydd er mwyn lleihau cost yr ased, llai eu gwerth gweddilliol, dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased fel a ganlyn:

Adeiladau Rhyddfraint:	dros 40 mlynedd
Cyfrifiaduron	50% ar gost
Offer a chyfarpar	25% ar gost

7. Cronfeydd Cyfyngedig

	Balans ar 1 Ionawr 2014	Adnoddau a dderbyniwyd	Adnoddau a wariwyd	**Balans ar 31 Rhagfyr 2014**
	£	£	£	**£**
Cronfa Lesotho	1,643	568	1,000	**1,211**
Elusennau eraill	1,473	2,689	3,540	**622**
Apêl Haiti	241	2,077	2,318	**-**
	3,357	5,334	6,858	**1,833**

*yn cynnwys Cymorth Rhodd

Atodiad 1 **RHESTR AELODAU 2014**

Ms Ceri Anwen	13 Sturminster Road, Penylan, Caerdydd
Mrs Siân Barnes	Gwyrfai, 22 Walnut Close, Meisgyn
Mrs Gwawr Booth	2 Edwardian Way, Meisgyn
Mrs Margaret Calvert	38 Danygraig Drive, Tonysguboriau
Mr Roy a Mrs Glenys Davies	Ardwyn, Heol yr Ysgol, Meisgyn
Mr Bryn a Mrs Myra Davies	16 The Green, Radur
Mr Carwyn Davies (m)	1 Meadow Drive, Tyla Garw, Pontyclun
Mrs Carys Davies	75 The Dell, Tonteg
Mr D J Davies	17 Tylcha Wen Crescent, Tonyrefail
Mrs Elain Haf Davies	7 Sunny Bank, Llantrisant
Mr Elgan a Mrs Gwyneth Davies	Gelli Aur, 32 Tudor Way, Crown Hill
Mr Emlyn a Mrs Ann Davies	“Sycharth”, 87 Maes y Sarn, Pentyrch
Mrs Dilwen Davies	64 Southgate Ave, Llantrisant
Mr Geraint Wyn a Mrs Sara Davies	14 Y Parc, Groesfaen
Mrs Aneira Davies	Plasgwyn, 23 Heol yr Eglwys, Tonteg
Arglwydd Gwilym Prys Davies	Lluest, 78 Heol yr Eglwys, Tonteg
Mrs Sara Davies	7 Clos Tregarth, Creigiau
Mrs Sylvia Davies	6 Parc Castell y Mynach, Creigiau
Mrs Heledd Day	Felindre Place, Yr Eglwys Newydd
Ms Ann Dixey	4 Heol y Ffynnon, Efail Isaf
Ms Enfys Dixey	4 Heol y Ffynnon, Efail Isaf
Mrs Nia Donnelly	8 New Mill Gardens, Meisgyn
Mrs Hayley Dunne,	25 Heol Dan yr Odyn, Pentyrch
Mrs Sioned Meri Edge	72 Parc Derwen, Llanharan
Mr John a Mrs Pat Edmunds	Hafan Deg, 29 Penywaun, Efail Isaf
Mrs Llio Ellis	3 De Clare Drive, Radur, Caerdydd
Mr Robert a Mrs Bethan Emanuel	Tŷ Gwyn, Heol Y Parc, Efail Isaf
Ms Sara Esyllt	3 Heol Penuel, Pentyrch
Mrs Angharad Evans	2 Clos y Brenin, Brynsadler
Mrs Awen Evans	Fan Heulog, Heol Y Bontfaen, Tonysguboriau
Mr Gwion a Mrs Amanda Evans	126 Parc Nant Celyn, Efail Isaf
Mrs Rosalind Evans	3 Ffordd Gwern, Rhydlafar
Mrs Rhian Eyres	17 Heol Iscoed, Efail Isaf,
Mrs Varion Gapper	15 Lancaster Drive, Llanilltud Faerdref
Mr Iwan a Mrs Bethan Griffiths	Tŷ Canol, Heol y Parc, Pentyrch
Mr Malcolm a Mrs June Griffiths	67 Heol Berry, Gwaelod-y-Garth
Mr Nigel a Mrs Sharon Griffiths	1 Y Parc, Groesfaen
Mrs Shelagh Griffiths	59 Heol Y Ffynnon, Efail Isaf
Mr Hefin a Mrs Lowri Gruffydd	113 Parc Nant Celyn, Efail Isaf
Mrs Bethan Guilfoyle	Caercwm, Peterston Road, Groesfaen
Mrs Carol Hardy	5 The Parade, Pentre’r Eglwys
Mrs Sian Harries	42 Heol y Pentre, Pentyrch

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

Ms Catrin Heledd	10 Radnor Road, Treganna, Caerdydd
Mr Huw a Dr Bethan Herbert	Bryn y Wern, Maes yr Hafod, Creigiau
Mr Clifford a Mrs Eifiona Hewitt	35 Penywaun, Efail Isaf
Mr Celt a Mrs Enfys Hughes	12 Nant y Felin, Efail Isaf
Mr Dewi a Mrs Haulwen(m) Hughes	112 Maes y Sarn, Pentyrch
Ms Lowri Wyn Humphries	7 Claverton Close, Beddau
Mr Gareth a Mrs Rhiannon Humphreys	53 Y Padog, Pentre'r Eglwys
Ms Manon Humphreys	53 Y Padog, Pentre'r Eglwys
Mr Gareth a Mrs Morfydd Huws	Bryn Bedw, Penywaun, Pentyrch
Mr Gwilym a Mrs Eleri Huws	Tal-y-fan, 9 Sovereign Gardens, Cefn-yr-Hendy, Meisgyn
Mr Wyn a Mrs Kate Innes	Greenfield, Ffordd Caerdydd, Creigiau
Mr Allan James	33 Portreeve Close, Llantrisant
Mr John(m) a Mrs Elaine James	23 Milford Close, Tonteg
Mr Rhodri James	7 Library Street, Treganna, Caerdydd
Mrs Bethan Jones	10 Maes y Gollen, Creigiau
Mrs Margaret Jones	12 Cwrt Faenor, Manor Chase, Beddau
Mrs Elenid Jones	3 Sneyd Street, Pontcanna, Caerdydd
Mr Emlyn a Mrs Sian Jones	37 The Ridings, Tonteg
Mr Glyn a Mrs Teleri Jones	Tryfan, Heol Caerdydd, Creigiau
Mrs Jane Jones	Tŷ'n Ffald, Mynydd y Garth, Pentyrch
Mrs Jane Eryl Jones	Elgar, 30 Crystal Wood Drive, Meisgyn
Mrs Jennie Jones (m)	Elgar, 30 Crystal Wood Drive, Meisgyn
Mrs Fiona Jones	20 Hillside Drive, Y Bontfaen
Mr Kenneth a Mrs Eleri Jones	3 Penffordd, Pentyrch
Mrs Lowri Jones	21 Clos y Brenin, Brynsadler
Mrs Siân Elin Jones	7 Heol Brynheulog, Meadow Farm, Pentre'r Eglwys
Mr Wyn a Mrs Mari Jones	12 Cwrt Coed y Brenin, Pentre'r Eglwys
Mrs Linda Ladd	27 Windsor Avenue, Radur
Mrs Lowri Leeke	Tŷ Hensol, Hensol, Pontyclun
Mrs Audrey Lewis	1 Neyland Close, Tonteg
Mr Rhys a Mrs Rhiannon Llewelyn	Hafod Lwyfog, 54 The Dell, Tonteg
Mr Carwyn a Mrs Heather Lloyd-Jones	15 Llys Coed Derw, Llanilltud Faerdref
Mrs Jennifer MacDonald	Penybryn, Heol Llanilltud, Creigiau
Ms Catrin Middleton	Y Berllan, Ffordd Caerdydd, Creigiau
Ms Eleri Middleton	Y Berllan, Ffordd Caerdydd, Creigiau
Dr Helen Middleton	Y Berllan, Ffordd Caerdydd, Creigiau
Mrs Ceri Morgan	10 Walnut Close, Meisgyn
Mrs Eleri Morrison	20 Pencisely Rise, Llandaf, Caerdydd
Mrs Gwerfyl Morse	120 Heol Llanishen Fach, Rhiwbeina, Caerdydd
Mr Andy a Mrs Nia Parker	11 Y Parc, Groesfaen
Dr Maldwyn Pate	2 Magnolia Drive, Llanilltud Faerdref
Mr Geraint a Mrs Rhiannon Price	44 Portreeve Close, Llantrisant

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

Mrs Margaret Pritchard-Copley	1 Heol Iscoed, Efail Isaf
Ms Helen Prosser	Alltwen, 33 Y Stryd Fawr, Tonyrefail
Mr Andrew a Mrs Suzanne Rees	18 Queen Charlotte Drive, Creigiau
Mr Wyn a Mrs Gill Rees	Llys y coed, Heol Pantygored, Pentyrch
Parch Eirian a Mrs Ann Rees	51 Penywaun, Efail Isaf
Mr Geraint a Mrs Caroline Rees	7 Penywaun, Efail Isaf
Mrs Heulwen Rees	3 Heol Iscoed, Efail Isaf
Mr Heulyn a Mrs Catrin Rees	5 Penywaun, Efail Isaf
Mr Huw a Mrs Ann Rees	Ystrad Fflur, 59 Clos Brenin, Brynsadler, Pontyclun
Mrs Wendy Reynolds	33 Parc Nantcelyn, Efail Isaf, Pontypridd
Ms Menna Rees	11 Heol y Parc, Efail Isaf
Mrs Bethan Roberts	89 Parc Nant Celyn, Efail Isaf
Mrs Ceri Roberts	Bryngwyn, 8 Y Teras , Creigiau
Dr Dafydd a Dr Lowri Roberts	1 Glan Creigiau, Groesfaen
Mrs Eleri Roberts	6 The Dell, Tonteg, Pontypridd.
Dr Guto a Mrs Glenys Roberts	Maes yr Haul, Cross Inn, Llantrisant
Mr Huw Roberts a Mrs Bethan Reynolds	13 Penywaun, Efail Isaf
Mr Huw Roberts a Dr Jenny Thomas	Saith Erw Fach, Creigiau
Mrs Anwen Robins	21 Parc Castell y Mynach, Creigiau
Mrs Eiry Rochford	Y Cysgod, 65 Maes y Sarn, Pentyrch
Mrs Anna Ellen Rogers	61 Maes y Sarn, Pentyrch
Mr Iwan a Mrs Nia Rowlands	20 Maes Cadwgan, Creigiau
Dr Keith a Mrs Eirian Rowlands	11 Meadow Brook, Pentre'r Eglwys
Mr Gary a Mrs Bethan Samuel	85 Parc Castell y Mynach, Creigiau
Mr Rhodri Samuel	2 Dombey Close, Thornhill, Caerdydd
Mrs Nerys Snowball	Disgarth, Penywaun, Pentyrch
Dr Donald a Mrs Trish Thomas	1 Clos Tregarth, Creigiau
Mr Eurig Wyn Thomas	Glan y Nant, 4 Church Lane, Nantgarw
Mr John a Mrs Judith Thomas	Afan, 97 Parc Nant Celyn, Efail Isaf
Mr Lynn a Mrs Gwenfil Thomas	35 Parc Castell y Mynach, Creigiau
Mrs Nia Thomas	26 Penywaun, Efail Isaf
Mrs Sara Thomas	20 Llys Llewelyn, Meadow Farm, Pentre'r Eglwys
Mrs Nia Thompson	14 Maes y Nant, Creigiau
Mr Gwilym a Mrs Beti Treharne	3 Nant y Felin, Efail Isaf
Mr Gethin a Mrs Carys Watts	16 Parc Castell y Mynach, Creigiau
Mr Michael a Mrs Lyn West	143 Parc Nant Celyn, Efail Isaf
Mrs Margaret White	15 Woodfield Road, Forest Hills, Tonysguboriau
Mrs Angharad Williams	9 Meadow Hill, Pentre'r Eglwys
Mr Anthony Williams	30 Despenser Avenue, Llantrisant
Mr Colin a Mrs Nia Williams	Yr Hafod, 1 Llys Gwynno, Creigiau
Mr Carey a Mrs Loreen Williams	Bro Dyfed, 9 Penywaun, Efail Isaf
Mr Penri a Mrs Carol Williams	Hendre, 4 Pantbach, Pentyrch
Dr Rowland a Mrs Marian Wynne	2 Cefn Llan, Pentyrch

Atodiad 2 **YSTADEGAU 2014**

AELODAU

Nifer aelodau ddechrau'r flwyddyn	181
Aelodau newydd	4
Aelodau wedi marw	4
Aelodau wedi ymadael	6
Nifer yr aelodau ar ddiwedd y flwyddyn	**175**

YSGOL SUL

Dosbarth 3 (Blwyddyn 3, 4, 5, a 6)	16
Dosbarth 2 (Blwyddyn 1 a 2)	24
Dosbarth 1 (Meithryn a Derbyn)	10
Babis	13
Cyfanswm	**63**

Atodiad 3 CYFRANIADAU AELODAU (£)

dynoda (*) aelod unigol
dynoda (c) gyfraniad trwy gyfamod

Rhif	*	c	Achos	Elusen	Cyfanswm
1		c	420	100	520
3			78		78
4		c	300		300
5			150		150
6		c	225	20	245
7		c	250	50	300
8	*		180	60	240
9		c	216		216
10	*	c	300	35	335
11		c	420	70	490
12		c	240	90	330
13		c	300		300
14		c	600	60	660
15	*	c	0		0
16		c	360		360
17	*		60		60
18		c	480	120	600
19		c	480		480
20	*	c	156	10	166
21		c	204	50	254
22		c	960	500	1460
23	*	c	180		180
24		c	120		120
25		c	360	50	410
26		c	410	80	490
27		c	250	50	300
28	*	c	240		240
29		c	96		96
30		c	480	50	530
31		c	180		180
32	*	c	75	50	125
33	*	c	300	50	350
34		c	156		156
35	*	c	120		120
36	*	c	240		240
37	*	c	132	10	142
38	*		0		0
39	*	c	33		33
40		c	240		240
41	*	c	119	16	135
42	*		0		0
43	*	c	120		120

Rhif	*	c	Achos	Elusen	Cyfanswm
44	*	c	240	20	260
45	*		123.5		123.5
46	*	c	50		50
47		c	240		240
48		c	300	55	355
49		c	204		204
50	*	c	60		60
51	*	c	162	35	197
52		c	180		180
53	*	c	240	37	277
54	*	c	120		120
55	*		10		10
56	*		150		150
57	*	c	75	10	85
58	*	c	300	135	435
59	*	c	48		48
60		c	240		240
61	*	c	200	100	300
62		c	240	20	260
63	*	c	75	10	85
65	*	c	100		100
66	*		100		100
67	*	c	49		49
68	*	c	50		50
69	*	c	120		120
70		c	240		240
71		c	300	100	400
73	*	c	50		50
74	*	c	102	15	117
75		c	240		240
76	*	c	160		160
77		c	360		360
79	*	c	120		120
80	*		0		0
81		c	180		180
82	*	c	120		120
83	*	c	100		100
84	*	c	5		5
85	*	c	7.5		7.5
86	*		0		0
87	*	c	150		150
88	*	c	240	100	340

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

89		c	240		240
90	*	c	180		180
91	*	c	0		0
92	*	c	240		240
93	*		0		0
94		c	0		0
95	*	c	120		120
96		c	264		264
97	*	c	120		120
98	*	c	120		120
99	*	c	30		30
100		c	120		120
101		c	180		180
102		c	240		240
103		c	440		440
104	*		0		0
105	*		0		0
106		c	30		30
107		c	27.3		27.3
108	*	c	0		0
109	*		100		100
110	*	c	45.9		45.9
111	*	c	120		120
112		c	300		300
113	*		0		0
114		c	240		240
115	*	c	72		72
116	*	c	72		72
117		c	17.5		17.5
118		c	120		120
119	*	c	65		65
121		c	180		180
122		c	360	100	460
123	*	c	120		120
124	*	c	120		120
125	*		0		0
126	*	c	120		120
127	*		35		35
128	*		0		0

129	*		10		10
130	*		100		100
131	*		0		0

CYFANSWM

Achos: £20829.7

Elusen: £2258